Cofnodion Cyfarfod
Cyngor Ieuenctid Ceredigion
Siambr y Cyngor, Penmorfa
Dydd Gwener 21 Hydref 2022

(10:00 – 13.15)

Yn bresennol:

Ysgol Uwchradd Aberteifi
Ysgol Uwchradd Aberteifi
Ysgol Gyfun Aberaeron
Ysgol Gyfun Aberaeron
Ysgol Gyfun Aberaeron
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Bro Teifi
Ysgol Bro Teifi
Ysgol Bro Teifi
Ysgol Bro Teifi
Ysgol Penglais
Ysgol Penglais
Ysgol Penglais
Coleg Ceredigion a Chenhadon Cymunedol Aberystwyth
Coleg Ceredigion a Chenhadon Cymunedol Aberystwyth

Yn bresennol hefyd: Gwion Bowen (Cadeirydd a Swyddog Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu) a Lowri Evans (Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu – Cyngor Sir Ceredigion)

Siaradwyr: Dros MS Teams - Richard Timms a Becky Bloor-Steen (Ymgynghorwyr Partneriaeth a Busnes, WELV Consulting Ltd)

Ymddiheuriadau: Lloyd Warburton (ASI - Senedd Cymru), Gethin Jones (Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaeth Cymorth ac Atal – Cyngor Sir Ceredigion), Elen James (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cymorth Cynnar – Cyngor Sir Ceredigion), Lowri Edwards (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd – Cyngor Sir Ceredigion), (Ysgol Henry Richard) a (Ysgol Henry Richard)

Agenda y Cyfarfod:

Agenda Cyngor Ieuenctid 21.10.22.doc

COFNODION	
1	**Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau**
	Agorodd Gwion Bowen y cyfarfod trwy groesawu'r Cyngor Ieuenctid newydd i'r Siambr.

	Cyflwynodd GB ac LE eu hunain a'u rolau. Nodwyd yr ymddiheuriadau gan gydweithwyr: Gethin Jones, Elen James a Lowri Edwards. Bydd Elen James yn ceisio ymuno yn rhith. Cafwyd ymddiheuriadau gan gynrychiolwyr Ysgol Henry Richard na fyddent yn gallu mynychu oherwydd bod digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr ysgol, ond byddent yn mynychu'r cyfarfod nesaf. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Lloyd Warburton, Aelod Senedd Ieuenctid Cymru dros Geredigion. Mae Lloyd wedi dechrau mynychu Prifysgol Aberystwyth yn ddiweddar. Hysbysodd GB y Cyngor Ieuenctid o'r trefniadau ymarferol ar gyfer y cyfarfod. • Siaradwyr • Dyfeisiau cyfieithu • Allanfeydd Tân • Toiledau • Cinio a lluniaeth Esboniodd GB y bydd siaradwyr gwadd yn ymuno yn rhith, ac o ganlyniad i feddalwedd newydd yn y Siambr, efallai y bydd angen treulio ychydig funudau ar ddechrau'r slot hwn yn sicrhau bod ansawdd y sain yn ddigonol. Cyflwynodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid eu hunain, gan nodi pa ysgolion / sefydliadau y maent yn eu cynrychioli. Esboniodd GB y bydd cofrestr yn cael ei dosbarthu yn ystod y cyfarfod er mwyn casglu cyfeiriadau e-bost at ddibenion anfon gohebiaeth, a gofynnodd LE a fyddai modd i'r aelodau nodi unrhyw ofynion dietegol at ddibenion cyfeirio yn y dyfodol. Yn dilyn y cyfarfod hwn heddiw, esboniodd GB y caiff Sianel Hwb MS Teams ei chreu i rannu gwybodaeth.
2	**Beth yw'r Cyngor Ieuenctid?**
	Rhoddodd GB gyflwyniad i'r Cyngor Ieuenctid, gan gynnig gwybodaeth am y cefndir ac esboniodd strwythur presennol y Cyngor Ieuenctid. Cyfarfod 1af Cyngor Ieuenctid 2022.23.ppt
3	**Gweithdai: Is-Grwpiau yr Amgylchedd ac Urddas Mislif**
	Esboniodd GB bod gan y Cyngor Ieuenctid ddau is-grŵp. Gall yr aelodau ddewis un i gymryd rhan ynddo. Rhannodd y Cyngor Ieuenctid yn ddau er mwyn cymryd rhan mewn gweithdy ar gyfer y ddau is-grŵp.

	Is-grŵp yr Amgylchedd	Is-grŵp Urddas Mislif
	Cyfranogwyr: 1. Ysgol Bro Pedr 2. Ysgol Bro Pedr 3. Ysgol Bro Pedr 4. Ysgol Bro Teifi 5. Ysgol Bro Teifi 6. Ysgol Bro Teifi 7. Ysgol Penglais 8. Ysgol Penglais Nodiadau: CI Nodiadau Gweithdy Is-grŵp yr A	Cyfranogwyr: 1. Ysgol Uwchradd Aberteifi 2. Ysgol Uwchradd Aberteifi 3. Ysgol Gyfun Aberaeron 4. Ysgol Gyfun Aberaeron 5. Ysgol Gyfun Aberaeron 6. Ysgol Gyfun Penweddig 7. Ysgol Gyfun Penweddig 8. Ysgol Gyfun Penweddig 9. Ysgol Gyfun Penweddig 10. Ysgol Bro Teifi 11. Ysgol Penglais 12. Coleg Ceredigion a Chenhadon Cymunedol Aberystwyth 13. Coleg Ceredigion a Chenhadon Cymunedol Aberystwyth Nodiadau: CI Nodiadau Gweithdy Is-grŵp Urc

4	**Diweddariad am Senedd Ieuenctid Cymru – Gwybodaeth**
	Yn absenoldeb Lloyd Warburton, rhannodd GB ddiweddariad gan Senedd Ieuenctid Cymru ar ei ran. Diweddariad Senedd Ieuenctid Cymru.pptx
5	**Adborth Ystafell Ieuenctid – Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan**
	Mae'r Gwasanaeth Canolfannau Lles yn dymuno cael adborth am yr 'ystafell ieuenctid' arfaethedig a fydd ar gael yng Nghanolfan Lles Llanbedr Pont Steffan, sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd. Bydd y Ganolfan Lles yn cymryd lle Canolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan. Bydd cyfleusterau lles ac ystafelloedd cyfarfod ac ardaloedd lles ar gael. Fel

	rhan o'r datblygiad hwn, cynigir cael lle ieuenctid dynodedig, a gofynnir am adborth am sut y dylai'r lle hwn ymddangos a pha ddodrefn/offer/adnoddau y dylai eu cynnwys. Gofynnwyd y cwestiwn i'r Cyngor Ieuenctid. Adborth Ystafell Ieuenctid.pptx Holodd IM (YBP) am amserlen y gwaith adeiladu, gan ofyn pryd y bydd ar agor i'r cyhoedd. **Gweithredu:** Bydd LE yn cysylltu â Thîm y Ganolfan Lles ac yn estyn gwahoddiad iddynt fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor Ieuenctid i gynnig diweddariad. Rhennir safbwyntiau a gasglwyd yn ystod y sesiwn gyda Chanolfan Lles Llanbedr Pont Steffan. CI Adborth Ystafell Ieuenctid 21.10.22.doc
6	**Etholiad Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig (UKYP)**
	Cyflwynodd GB y cyfle i'r Cyngor Ieuenctid ethol Aelod Senedd Ieuenctid y DU nesaf Ceredigion, a fydd yn gweithio gyda Lloyd fel ASI Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfer 2022-23. Mae Poppy Evans (Ysgol Gyfun Aberaeron), sydd newydd orffen ei thymor fel ASI Ceredigion yn ddiweddar, wedi symud i ffwrdd i astudio mewn Prifysgol, felly mae'n bryd ethol ASI newydd. Cylfwyniad ASI - MYP Presentation 2022.ppt Esboniodd GB bod cyfle nawr i bobl ifanc ddatgan a ydynt yn dymuno enwebu eu hunain ar gyfer etholiad SIDU. Bydd pobl ifanc sy'n dymuno gwneud hynny yn cael 30 eiliad i sôn wrth weddill y Cyngor Ieuenctid pam yr hoffent ymgymryd â'r rôl. Yna, bydd y Cyngor Ieuenctid yn pleidleisio, gan roi eu papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio yn nhu blaen y Siambr. Bydd gan bob unigolyn ifanc un pleidlais. Caiff y pleidleisiau eu cyfrif dros ginio a chyhoeddir enw'r ymgeisydd llwyddiannus yn fuan ar ôl cinio. Penderfynodd saith person ifanc roi eu henwau ymlaen ac estynnwyd llongyfarchiadau iddynt am wneud hynny, gan nad yw siarad o flaen cymaint o bobl yn beth hawdd i'w wneud, yn enwedig mewn rhywle fel y Siambr. Rhoddodd pob person ifanc esboniad byr i gefnogi eu cais. (Ysgol Bro Teifi) (Ysgol Bro Teifi) (Ysgol Bro Teifi) (Ysgol Gyfun Penweddig)

	(Ysgol Gyfun Penweddig) (Ysgol Gyfun Penweddig) (Ysgol Penglais) (Ysgol Gyfun Aberaeron) Cynhaliwyd pleidlais, a chyhoeddwyd mai'r ymgeisydd llwyddiannus a fydd yn Aelod Senedd Ieuenctid y DU dros Geredigion am eleni fydd **Aled Lewis (Ysgol Gyfun Aberaeron)**. Llongyfarchwyd AL, a rhoddwyd cydnabyddiaeth i eraill am roi eu henwau ymlaen. Bydd y gwaith yn parhau gydag AL, a bydd GB ac LE yn cysylltu ag AL maes o law.
7	**Prosiect Adolygu Ymgysylltu Cymunedol Gwledig Cymorth ac Atal: WELV Consulting Ltd.**
	Comisiynwyd WELV Consulting Ltd fel rhan o brosiect 'Adolygu Ymgysylltu Cymunedol Gwledig Cymorth ac Atal' gan yr Awdurdod Lleol. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi comisiynu WELV Consulting Ltd i arwain ar werthusiad annibynnol ac astudiaeth ddichonoldeb o Ddarpariaeth Allgymorth ac Ymgysylltu Cymunedol y Cyngor. Nod y prosiect yw cynorthwyo'r Awdurdod Lleol i ddatblygu dulliau gweithredu cryfach, mwy effeithlon ac integredig ar gyfer darparu a rheoli, er budd ei breswylwyr. Mae WELV yn bwriadu ymgysylltu gyda a chasglu ystod eang o safbwyntiau, gan blant a phobl ifanc a hefyd, gan staff mewnol a phartneriaid cymunedol eraill a rhanddeiliaid, ynghyd â phwyllgorau a byrddau perthnasol, a fydd yn cael budd gan neu'n cael eu heffeithio gan y penderfyniadau a wneir ar sail yr argymhellion yn yr adolygiad. Ymunodd Becky a Richard â'r cyfarfod ar y sgrin trwy MS Teams, a buont yn ymgysylltu â'r Cyngor Ieuenctid ar gyfres o gwestiynau ynghylch cyfleoedd cymdeithasol yng Ngheredigion. Bu'r Cyngor Ieuenctid yn siarad am faterion megis trafnidiaeth, cyfleusterau, clybiau ac addysg ôl-16. Holodd Becky a Richard a oedd yr aelodau yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau pellach, ond ni fu modd gwneud hyn oherwydd cyfyngiadau amser, a gofynnwyd iddynt ysgrifennu nodyn, a bydd LE yn eu rhannu gyda nhw ar ôl y cyfarfod. Gofynnodd LE i'r aelodau adael nodiadau ar eu byrddau ac fe'u cesglir ar ddiwedd y cyfarfod. Yn ogystal, estynnodd Becky a Richard wahoddiad i unrhyw bobl ifanc ymweld â nhw yng Nghanolfan Lles Llanbedr Pont Steffan. Maent yn gobeithio ymweld â'r safle a gweithio oddi yno am ddau ddiwrnod ym mis Rhagfyr. Mynegodd rhai o aelodau'r Cyngor Ieuenctid ddiddordeb mewn gwneud hyn, a bydd WELV yn cadarnhau'r dyddiadau hyn gydag LE cyn gynted ag y bo modd, a bydd LE/GB yn eu rhannu gyda'r Cyngor Ieuenctid. **Gweithredu:** LE/GB i rannu dyddiadau gydag aelodau'r Cyngor Ieuenctid ar ôl iddynt eu cael gan WELV. Diolchwyd i'r Cyngor Ieuenctid am eu cyfraniad ac am gymryd rhan yn y sesiynau ymgysylltu, a nododd Becky a Richard y bu eu cyfraniad o gymorth mawr iddynt a'u gwerthusiad.
8	**Ethol Cadeirydd y Cyngor Ieuenctid ar gyfer 2022/23**

	Oherwydd y cyfyngiadau amser yng nghyfarfod heddiw, caiff yr eitem hon ei symud ymlaen i'r cyfarfod nesaf.
9	**Rhannu Gwybodaeth a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
	Rhannodd GB wybodaeth am y cyfarfod nesaf, a gynhelir yn y Siambr unwaith eto, ar 03/02/2023. Dyddiadau cyfarfodydd: Cyfarfod 1; 21/10/22 Cyfarfod 2; 03/02/23 Cyfarfod 3; 17/03/23 Diwedd y cyfnod, Digwyddiad Pawb a'i Farn; 14/07/23 Esboniodd GB y bydd is-grwpiau yn cyfarfod cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Ieuenctid, dros MS Teams yn ôl pob tebyg. Efallai y bydd is-grwpiau yn cyfarfod yn fwy rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwaith prosiect / ymgyrchu yn gallu symud yn ei flaen. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei hanfon i is-grwpiau maes o law. Gofynnodd GB i'r holl aelodau allgofnodi wrth iddynt adael Penmorfa, gan aros am eu trafnidiaeth yn y dderbynfa. Diolchodd GB i'r grŵp am gyfarfod cyntaf cadarnhaol a chynhyrchiol Cyngor Ieuenctid 2022-23. *Cyflwynir cofnodion cyfarfod y Cyngor Ieuenctid i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet Llawn, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu bwydo i mewn i'r broses ddemocrataidd yng Ngheredigion.*